Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

**Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad yr is-grŵp lles**


**Crynodeb**

Mae'r broses o ddatganoli budd-daliadau i'r Alban wedi bod yn gymhleth ac yn ddrud; oherwydd costau sefydlu Social Security Scotland a'r galw ychwanegol sy'n deillio o ddiwygiadau'r Alban. Mae rhyngweithiad budd-daliadau datganoledig a budd-daliadau a gedwir yn ôl yn arwain at gymhlethdod parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar wella gweithrediad budd-daliadau sydd eisoes wedi'u datganoli, er mwyn creu system fudd-daliadau ddiwygiedig i Gymru, gyda mynediad haws drwy un pwynt cyswllt. Gallai hyn fod yn sail ar gyfer ceisio rhagor o bwerau ond, o ystyried yr her weinyddol a'r risgiau cyllidol, nid dyma'r flaenoriaeth ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar ymarferoldeb datganoli pwerau mewn perthynas â gweinyddu budd-daliadau ar wahân i'r budd-daliadau eu hunain.


**Cyflwyniad**

Dyma aelodau'r is-grŵp:

> Anwen Elias, Miguela Gonzalez, Shavanah Taj, Leanne Wood, Lauren McEvatt, Michael Marmot, Philip Rycroft (Comisiynwyr)
>
> Mairi Spowage a Gareth Williams (Panel Arbenigwyr).

Cyfarfu'r is-grŵp ar 30 Mawrth a 18 Ebrill 2023.

Ar 30 Mawrth, cytunodd y grŵp ar ei ddull gweithredu a thrafododd brofiad yr Alban o ddatganoli budd-daliadau.

Ar 18 Mawrth cyfarfu'r grŵp â Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'i swyddogion, a Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan.

**Cefndir**

<u>Safbwynt Llywodraeth Cymru</u>

Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn ym mis Medi 2022 yn cynnwys y canlynol ar restr o bosibiliadau ar gyfer datganoli pellach:

> *pwerau gweinyddol mewn perthynas â lles (yng nghyd-destun cyfleoedd posibl, gallai hyn ddarparu ar gyfer cyfuno trefniadau cymorth datganoledig ac a gedwir yn ôl ar gyfer aelwydydd agored i niwed, sy'n gynyddol bwysig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw)*

<u>Y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru</u>

Mae'r cytundeb yn cynnwys datganoli'r gwaith o weinyddu lles, fel a ganlyn:

> *Mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb – Cefnogi datganoli'r gwaith o weinyddu lles ac ymchwilio i'r seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer hyn. Byddai angen trosglwyddo'r cymorth ariannol priodol i gyd-fynd â throsglwyddo pŵer o'r fath.'*

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Edrychodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar yr achos dros ddatganoli'r gwaith o weinyddu'r system fudd-daliadau yng Nghymru yn ei hadroddiad yn 2020: - Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru. Roedd hyn yn nodi'r anhawster o wahanu gweinyddiaeth oddi wrth bolisi, pan fo materion megis amseriad taliadau budd-daliadau fel arfer yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth.

*Pwyllgor Materion Cymreig*

Ym mis Mehefin 2021 lansiodd y Pwyllgor Materion Cymreig ymchwiliad i'r system fudd-daliadau yng Nghymru. Roedd yr ymchwiliad wedi edrych ar weithrediad y system fudd-daliadau yng Nghymru a sut roedd y pandemig wedi newid y math o gymorth a faint o gymorth sydd ei angen ar bobl.

Cyhoeddwyd adroddiad y pwyllgor Y System Fudd-daliadau yng Nghymru – Y Pwyllgor Materion Cymreig (parliament.uk) ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn cynnwys y datganiadau canlynol:

> *Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn dangos bod agweddau tuag at y syniad o ddatganoli lles yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai'n poeni am y goblygiadau ariannol ac roedd llawer yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad, nododd llawer o arbenigwyr fanteision posibl gallu darparu budd-daliadau mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i ddemograffeg Cymru. (Paragraff 160)*
>
> 32. *Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng datganoli rhai budd-daliadau lles penodol a datganoli lles yn gyfan gwbl. Rydym yn argymell, fel cam cyntaf, y dylai Bwrdd Cynghori Rhyngweinidogol Llywodraeth y DU ar Nawdd Cymdeithasol gynnal asesiad o rinweddau posibl datganoli'r gwaith o weinyddu'r un budd-daliadau i Gymru â'r rhai sydd wedi'u datganoli i'r Alban.* (Paragraff 161)

Roedd ymateb Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2022 , yn cynnwys y datganiad canlynol:

> *Nid oes gan Lywodraeth y DU unrhyw fwriad i ddatganoli nawdd cymdeithasol i Lywodraeth Cymru. Mae adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod manteision y system bresennol, gan dynnu sylw at ei chryfder yn ystod yr ymateb i Covid. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn dangos bod*

*agweddau tuag at y syniad o ddatganoli nawdd cymdeithasol i Senedd Cymru yn amrywio'n sylweddol o ran goblygiadau polisi, gweithredu a chyllido.*

Ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol y Senedd

Roedd ymchwiliad y Pwyllgor yn 2019 yn ystyried sawl agwedd ar y system les yng Nghymru, gan gynnwys budd-daliadau datganoledig a budd-daliadau a gedwir yn ôl, ac yn galw am ragor o waith ar ddatganoli budd-daliadau penodol.

Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well (senedd.cymru)

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2020 yn cynnwys y datganiad canlynol:

*Yn fy nhystiolaeth ar gyfer eich ymchwiliad, roeddwn wedi cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'n huniad mewn perthynas â nawdd cymdeithasol, a'r rhan bwysig y mae system nawdd cymdeithasol ar gyfer y DU gyfan yn ei chwarae wrth wynebu heriau mawr. Mae'r modd y gall y DU weithio ar y cyd i gyflawni'r heriau mawr hynny ar feddwl pawb yn ystod y cyfnod hwn. Am y rheswm hwnnw, mae angen i Gymru fwrw ymlaen â'r gwaith o ystyried datganoli nawdd cymdeithasol â gofal mawr.*

*O ran argymhellion 9 i 17, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cyfeiriad y bydd y Llywodraeth hon yn ei ddilyn ynghylch datganoli unrhyw agweddau ar y system nawdd cymdeithasol. Mae'n hanfodol ein bod yn archwilio hyn ymhellach i sicrhau bod rhwyd ddiogelwch nawdd cymdeithasol ar gael i bawb. Ac wrth gynnal rhagor o drafodaethau ar y mater hwn â Llywodraeth y DU, mae'n holl bwysig ein bod yn sefydlu set glir o egwyddorion ar gyfer nawdd cymdeithasol, ein bod yn asesu goblygiadau'r setliad datganoli, a bod unrhyw gyllid a drosglwyddir ac a negodir yn seiliedig ar dystiolaeth dda a chadarn.*

**Tystiolaeth i'r is-grŵp**

Yr Alban

Nododd y grŵp fod yr Alban yn darparu astudiaeth achos fyw ar ymarferoldeb datganoli budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Yn dilyn adroddiad Comisiwn Smith, cytunodd Llywodraeth y DU i ddatganoli nifer o fudd-daliadau i Lywodraeth a Senedd yr Alban, drwy gyfrwng Deddf yr Alban 2016.

Mae papur y Panel Arbenigol gan yr Athro Mairi Spowage (Atodiad 1) yn rhestru'r budd-daliadau datganoledig ac yn amlinellu'r effaith ar gyllideb Llywodraeth yr Alban. Dyma'r prif bwyntiau o'r papur:

- Nid oes disgwyl i'r broses ddatganoli gael ei chwblhau tan ddiwedd y senedd bresennol yn 2026.
- Mae corff gweithredol newydd, Social Security Scotland, wedi cael ei greu i weinyddu'r taliadau, ac mae proses o drosglwyddo hawlwyr fesul cam ar waith.
- Mae 19 o fudd-daliadau newydd eu datganoli, sy'n gysylltiedig yn bennaf ag afiechyd, anabledd a gofalu, gyda chyfanswm cost o £3.8 biliwn yn 2021-22.

- Yn gyffredinol, mae disgwyl i'r gyllideb ar gyfer nawdd cymdeithasol datganoledig yn yr Alban gynyddu i £7.3 biliwn erbyn 2027-28.

- Mae'r bwlch rhwng cyllideb nawdd cymdeithasol yr Alban a'r cyllid a geir gan Lywodraeth y DU yn tyfu.

- Mae hyn yn adlewyrchu a) cyflwyno budd-daliadau newydd nad ydynt ar gael mewn mannau eraill yn y DU, megis Tâl Atodol y Lwfans Gofalwr a Thaliad Plant yr Alban, a b) proses ymgeisio wahanol ar gyfer budd-daliadau anabledd y disgwylir iddi arwain at nifer uwch o hawlwyr na'r budd-daliadau a gedwir yn ôl y maent yn eu disodli.

- Rhaid i'r cyllid llenwi bwlch gael ei fodloni'n llwyr o fewn cyllideb yr Alban. Rhagwelir y bydd yn mwy na dyblu yn ystod 2023/24 i £776m ac yn cynyddu i £1.4 biliwn erbyn 2027/28.

- Mae effaith y dewisiadau hyn yn cael ei theimlo mewn mannau eraill wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn yr Alban. Mae nawdd cymdeithasol datganoledig yn cyfrif am 10% o Gyllideb yr Alban yn 2023-24 – bydd hyn yn cynyddu i 13% erbyn 2027-28. Mae hyn yn golygu llai o arian i awdurdodau lleol, Addysg Uwch, Datblygu Economaidd a chyfiawnder.

Mewn trafodaeth, nododd yr is-grŵp fod y costau hyn yn deillio o ddewisiadau polisi a wnaed gan Lywodraeth yr Alban. Mae llawer o feirniadaeth wedi bod ynghylch arafwch y broses weithredu, ond nid yw amcanion y polisi wedi cael eu herio mewn gwirionedd.

Mae maint y gwariant dan sylw yn dangos yr angen am hyblygrwydd cyllidol i gefnogi diwygiadau i fudd-daliadau. Mae Llywodraeth yr Alban wedi codi'r gyfradd uwch o dreth incwm, ond nid yw'r refeniw a godwyd wedi gwrthbwyso costau ychwanegol y diwygiadau i fudd-daliadau yn llawn. (Nododd y grŵp nad oedd hyn wedi arwain at ormod o drethdalwyr ar y gyfradd uwch yn ymadael, o bosibl oherwydd y budd-daliadau eraill a oedd ar gael i drigolion yr Alban, megis absenoldeb ffioedd dysgu.)

Yn ogystal â hyn, cafwyd heriau sylweddol o ran TG a recriwtio wrth greu Social Security Scotland ac wrth symud hawlwyr i'r budd-daliadau sydd newydd eu datganoli. Mae wedi dod i'r amlwg bod teilwra budd-daliadau i adlewyrchu anghenion unigolion yn broses lafurddwys iawn. Mae cymhwysedd ar gyfer Credyd Cynhwysol yn cael ei ddefnyddio fel pasbort i gael gafael ar fudd-daliadau datganoledig, felly bob tro y bydd Llywodraeth y DU y newid budd-daliadau a gedwir yn ôl, mae angen cyfrifo'r addasiadau i fudd-daliadau datganoledig a'u rhoi ar waith.

<u>Ymchwil Canolfan Llywodraethiant Cymru</u>

[devolving_welfare_final.pdf (d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net)]

Yn ei adroddiad yn 2019, bu tîm Dadansoddi Cyllid Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru yn edrych ar oblygiadau datganoli'r budd-daliadau sydd wedi'u datganoli i'r Alban, i Gymru, fel y trafodir uchod. Mae'r awduron yn dadlau oherwydd bod y nifer sy'n manteisio ar y budd-daliadau hyn wedi bod yn gostwng

yng Nghymru (o ganlyniad i waddol diwydiant trwm yn pylu'n raddol, gellid dadlau) y byddai gwarged net o £200 miliwn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru (o'i gymharu â chyfanswm gwariant o £2 biliwn) pe bai'r budd-daliadau wedi cael eu datganoli ar sail yr un cyfrifiad ariannol â'r un a ddefnyddiwyd yn yr Alban yn 2018/19 .

Nodwn y cafeatau canlynol i'r cyfrifiad hwn:

- nid yw'n glir y byddai gostyngiad parhaus yn y nifer sy'n manteisio ar y budd-daliadau hyn yn y dyfodol, sy'n golygu nad oes sicrwydd y byddai datganoli'r budd-daliadau hyn yn 2025/6, dyweder, yn arwain at warged cyfatebol dros amser

- yn seiliedig ar brofiad yr Alban, gallai'r budd ariannol gael ei lyncu'n hawdd gan gostau sefydlu system ar gyfer gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru;

- byddai pwysau enfawr ar Lywodraeth Cymru (fel yn yr Alban) i gynyddu'r budd-daliadau perthnasol, yn ogystal â chyflwyno budd-daliadau newydd a fyddai'n debygol o arwain at orfod dod o hyd i arian o rannau eraill o'i chyllideb i ariannu'r costau y tu hwnt i'r £200 miliwn.

<u>Sefydliad Bevan</u>

Mae Sefydliad Bevan wedi cyhoeddi'n helaeth ar dlodi yng Nghymru, gan gynnwys gwneud cynigion i wella gweithrediad budd-daliadau yng Nghymru, hynny yw, y rheini sydd eisoes wedi'u datganoli (budd-dal treth gyngor, Cronfa Cymorth Dewisol, prydau ysgol, Lwfans Cynhaliaeth Addysg ac ati). Ysgogwyd hyn gan dystiolaeth ar y rhwystrau rhag mynediad a'r lefelau defnydd isel.

Mewn trafodaeth, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr, Victoria Winckler, raddfa gwariant Llywodraeth y DU ar nawdd cymdeithasol yng Nghymru, a oedd wedi mwy na dyblu rhwng 1996-97 a 2021-22, o £4.6 biliwn i £11.6 biliwn, a hynny wedi'i sbarduno'n bennaf gan y twf mewn gwariant ar fudd-daliadau i bobl hŷn a phobl anabl.

Yng Nghymru, mae'r canlynol yn derbyn rhyw fath o daliad nawdd cymdeithasol neu gredyd treth:

- Bron pob pensiynwr
- Bron pob plentyn
- Mwy na hanner y boblogaeth oedran gweithio

Nododd Sefydliad Bevan fod tlodi ac amddifadedd wedi cynyddu o ganlyniad i gyfuniad o'r canlynol:

- Lefelau budd-daliadau
- Y cyfyngiad dau blentyn ar daliadau i deuluoedd
- Didyniadau, sancsiynau, capiau ar fudd-daliadau a diffygion
- Dyled oherwydd y 5 wythnos o oedi ar gyfer Credyd Cynhwysol ac amseriad y taliadau.

Roedd y budd-daliadau sydd wedi'u datganoli i Gymru yn atodiad hanfodol i'r budd-daliadau a gedwir yn ôl. Y flaenoriaeth gyntaf oedd cysoni a symleiddio'r rhain mewn un system, er mwyn galluogi pobl i gael yr arian mae ganddynt hawl iddo gyda llai o

ymdrech a dyblygu prosesau, a thrwy hynny gynyddu'r nifer sy'n eu manteisio arnynt. Roedd y rhaglen hon yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r trydydd sector, ac fe gafodd gefnogaeth drawsbleidiol.

Gallai system ddiwygiedig yng Nghymru fod yn sylfaen ar gyfer datganoli rhagor o fudd-daliadau fel taliadau disgresiwn at gostau tai. Nid oedd datganoli budd-daliadau yn fater 'pob dim neu ddim byd'. Yn 2016, roedd y Sefydliad wedi cynnig y syniad o geisio datganoli budd-daliadau anabledd i Gymru, ond nid oedd grwpiau anabledd yn gweld hynny fel blaenoriaeth.

Ni fyddai datganoli sylweddol i Gymru yn ymarferol heb newid mawr yn y system drethi. Ar ben hynny, roedd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn ei gwneud yn gymhleth iawn datgysylltu ei fudd-daliadau cyfansoddol.

Nododd y grŵp y byddai annibyniaeth yn golygu ymgymryd â'r pecyn cyflawn o fudd-daliadau, ond ni fyddai dalen wag i ddylunio system newydd. Byddai angen i'r setliad gyda Llywodraeth y DU adlewyrchu'r gwaddol a etifeddid gan y llywodraeth newydd.

Byddai graddfa'r pwysau ar y gyllideb yn dibynnu ar lefelau'r budd-daliadau, y meini prawf cymhwysedd a'r adnoddau cyllidol sydd ar gael. Byddai dewisiadau, ee rhwng cynnal y clo triphlyg ar bensiynau neu fuddsoddi mewn cymorthdaliadau tai uwch. Gallai Cymru ddysgu o brofiad yr Alban wrth ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal â'r materion a amlygwyd gan Sefydliad Bevan, mae amrywiaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar dlodi ac amddifadedd, gan gynnwys lefel y tâl sector cyhoeddus. Mae llawer o weithwyr rheng flaen, gan gynnwys gweision sifil sy'n gweinyddu budd-daliadau, yn cael budd-daliadau mewn gwaith.

<u>Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol</u>

Amlinellodd y Gweinidog, Jane Hutt, yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o fewn ei phwerau presennol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno cynlluniau wedi'u teilwra i ymateb i argyfyngau, gan gynnwys:

- y taliad tanwydd gaeaf a gyrhaeddodd 256,000 o deuluoedd ac a oedd yn golygu gwneud llawer o waith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EF i sicrhau bod y grant yn cyrraedd teuluoedd heb wrthbwyso gostyngiadau mewn budd-daliadau.
- y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, a luniwyd i helpu'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig;
- y cynnydd yn y Gronfa Cymorth Dewisol i ateb y galw;
- yr ymrwymiad i brydau ysgol am ddim i bawb.

Cafodd y cynlluniau hyn a chynlluniau eraill eu hariannu o grant bloc Llywodraeth Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn rheolaidd ynghylch effeithiau negyddol newidiadau i fudd-daliadau a gedwir yn ôl, a hynny'n ofer. Cafodd argymhellion adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn 2022 ynghylch y system fudd-daliadau fel yr oedd yn berthnasol i Gymru, eu gwrthod gan Lywodraeth y DU.

Roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Sefydliad Bevan a llywodraeth leol ar brosiect i symleiddio'r prosesau ymgeisio ar gyfer budd-daliadau datganoledig gydag un pwynt mynediad ar gyfer pob cynllun. Byddai hyn yn sail i siarter budd-daliadau newydd i Gymru a gallai leihau'r rhwystrau rhag mynediad yn sylweddol, a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun. Ar ôl ei sefydlu, gallai hyn arwain y ffordd ar gyfer rhagor o bwerau.

Fel rhan o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddichonoldeb datganoli'r gwaith o weinyddu budd-daliadau a gedwir yn ôl, i brofi a fyddai hyn yn galluogi canlyniadau gwell yng Nghymru, ac roedd yn cynllunio prosiect ymchwil i ddarparu tystiolaeth ar ganlyniadau posibl. Byddai'n darparu nodyn gyda rhagor o fanylion am hyn.

Cafwyd ymgysylltiad cadarnhaol â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel weithredol yng nghyswllt materion ymarferol, ond roedd yn llawer anoddach ymgysylltu â Gweinidogion. Fel rhan o'r strwythur diwygiedig ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, roedd cyd-grŵp Gweinidogol wedi'i gynllunio ond nid oedd wedi'i drefnu eto (fel oedd pethau'n sefyll ym mis Ebrill 2023). Nid oedd unrhyw ddiddordeb mewn dysgu o'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal nac mewn gweithio ar ymgyrch ar y cyd ar hawlio credyd pensiwn. Roedd perthynas waith agos gyda Llywodraeth yr Alban.

Nododd yr is-grŵp effaith bosibl y cynllun peilot i bobl ifanc sy'n gadael gofal o ran lleihau troseddu. Soniodd y Gweinidog am gynllun gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru ar ymateb i bobl niwrowahanol, a'r cyfle i wneud mwy o waith ar hyn.

Gofynnodd yr is-grŵp am y cwmpas ar gyfer datganoli budd-daliadau er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i'r rheini sy'n gadael y carchar a cheiswyr lloches, a chytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn (*Atodiad 3*).

Y Prif Weinidog

Yn ei dystiolaeth i'r Comisiwn ar 28 Medi 2023, cadarnhaodd y Prif Weinidog yr uchelgais i ddatganoli rhai agweddau ar weinyddu lles, gan gynnwys drwy ganolfannau gwaith. Y nod yw gwella'r gwasanaeth a'r gefnogaeth a gynigir i bobl yng Nghymru, yn enwedig y rhai sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed. Bydd prosiect ymchwil arfaethedig Llywodraeth Cymru (a grybwyllir yn nhystiolaeth y Gweinidog uchod) yn darparu diffiniad annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r swyddogaethau sy'n rhan o'r diffiniad o weinyddu lles. Yr amcan yw helpu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddod i gytundeb ar y diffiniad o weinyddu lles a'r camau gweithredu sydd o fewn cwmpas y diffiniad. Disgwylir i'r ymchwil hwn gael ei gwblhau erbyn tymor yr haf 2024.

**Casgliadau**

Dyma gasgliadau'r is-grŵp:

- mae profiad yr Alban yn dangos bod datganoli budd-daliadau yn rhannol wedi creu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer newid, ond mae'n ymgymeriad mawr sydd â chostau a risgiau sylweddol;

- mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r ffordd y gweithredir y budd-daliadau hynny sydd eisoes wedi'u datganoli, mewn ymateb i gynigion gan Sefydliad Bevan ar gyfer system fudd-daliadau i Gymru a chynlluniau i gomisiynu ymchwil ar y posibilrwydd o ddatganoli'r gwaith o weinyddu rhai budd-daliadau. Gallai'r datblygiadau hyn fod yn sail ar gyfer ceisio rhagor o bwerau yn y dyfodol;
- o dan y setliad presennol, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu treialu newidiadau a allai, er enghraifft, gefnogi adsefydlu carcharorion neu alluogi ceiswyr lloches i weithio;
- mae'r cydweithio rhynglywodraethol yn gryf ar lefel weithredol, ond yn wan ar lefel Gweinidogion;
- nid yw'r dystiolaeth i'r grŵp yn dangos unrhyw awydd am ragor o bwerau o ran budd-daliadau ar hyn o bryd;
- felly nid yw'n ymddangos bod datganoli budd-daliadau yn ofyniad ar gyfer model datganoli sefydlog a sicr; ond byddai angen ei ystyried o dan fodel ffederal;
- byddai etifeddiaeth budd-daliadau y DU yn eitem bwysig i'w thrafod cyn cael Cymru annibynnol;
- pe bai Llywodraeth y DU yn fwy agored i weithio gyda llywodraethau datganoledig i dreialu dulliau newydd, gallai hynny alluogi arloesi a dysgu gwerthfawr yn y maes hwn.

# Atodiad

## Datganoli Nawdd Cymdeithasol yn yr Alban

Cafodd pecyn mawr o bwerau eu datganoli i senedd yr Alban yn dilyn Comisiwn Smith yn 2014, drwy Ddeddf yr Alban 2016. Ers pasio'r ddeddf, mae'r broses araf o ddatganoli'r taliadau hyn wedi bod yn mynd rhagddi, a dylai fod wedi ei chwblhau erbyn diwedd y senedd bresennol yn 2026. Mae Social Security Scotland wedi cael ei greu i weinyddu'r taliadau hyn, ac mae proses o drosglwyddo hawlwyr fesul cam ar waith.

Ar y cyfan, roedd y taliadau a oedd newydd eu datganoli ym maes budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd gwael, anabledd a gofalu, gyda rhai hefyd yn gysylltiedig â phobl hŷn (fel taliadau tanwydd gaeaf). Roedd y ddeddf hefyd wedi datganoli gwasanaethau cyflogadwyedd yn ffurfiol ac yn rhoi'r gallu i Senedd yr Alban greu budd-daliadau newydd (mae wedi gwneud hynny erbyn hyn).

## Tabl: Nawdd Cymdeithasol Datganoledig yn yr Alban, Alldro 2021-22

| £ miliwn | 2021-22 | Nodiadau |
|---|---|---|
| Taliad Anabledd i Oedolion | 1,739 | Disodli Taliad Annibyniaeth Personol Llywodraeth y DU |
| Best Start Foods | 14 | Disodli Talebau Cychwyn Iach Llywodraeth y DU |
| Best Start Grant | 14 | Disodli Grant Cychwyn Cadarn Llywodraeth y DU |
| Tâl Atodol y Lwfans Gofalwr | 58 | Cyflwyno Budd-dal Datganoledig newydd i ychwanegu at y lwfans gofalwr hyd at lefel y Lwfans Ceisio Gwaith |
| Taliad Anabledd i Blant | 227 | Disodli Lwfans Byw i'r Anabl Llywodraeth y DU ar gyfer plant |
| Cymorth Gwresogi'r Gaeaf i Blant | 5 | Taliad ychwanegol i'r rhai sy'n derbyn y Taliad Anabledd i Blant uchaf |
| Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai | 76 | Wedi datganoli ers 2017 i liniaru'r "dreth ystafell wely" a'r cap ar fudd-daliadau |
| Gwasanaethau Cyflogadwyedd | 26 | Gwariant ar Fair Start Scotland |
| Cymorth gydag Anafiadau Cyflogaeth | 80 | Disodli Cynllun Anabledd Anafiadau Diwydiannol Llywodraeth y DU |
| Taliad Cymorth Angladd | 10 | Disodli'r Taliad Costau Angladd |
| Taliad Anabledd i Bobl Oed Pensiwn | 515 | Disodli Lwfans Gweini Llywodraeth y DU |
| Taliad Gwresogi'r Gaeaf i Bobl Oed Pensiwn | - | Disodli Taliad Tanwydd Gaeaf Llywodraeth y DU, £185m erbyn 2026-27 |
| Lwfans Byw i'r Anabl i Oedolion yn yr Alban | 464 | Disodli Lwfans Byw i'r Anabl Llywodraeth y DU ar gyfer oedolion |
| Cymorth i Ofalwyr yn yr Alban | 294 | Disodli Lwfans Gofalwr Llywodraeth y DU |
| Taliad Plant yr Alban | 56 | Budd-dal datganoledig newydd – yn cynyddu i £457m erbyn 2027-28 |
| Cronfa Les yr Alban | 36 | Wedi disodli elfennau o Gronfa Gymdeithasol Llywodraeth y DU a ddatganolwyd yn 2013 |
| Grant Cynhaliaeth Hunanynysu | 62 | Cymorth COVID dros dro |

| | | |
|---|---|---|
| Lwfans Anabledd Difrifol | 7 | Mae'r taliad hwn wedi'i gau i newydd-ddyfodiaid ers 2001. |
| Taliad Gwresogi'r Gaeaf | - | Bydd yn disodli Taliad Tywydd Oer Llywodraeth y DU o 2022-23 ymlaen: tua £24m y flwyddyn |
| **Cyfanswm y gwariant** | 3,682 | |

## Rhagolygon ar gyfer Gwariant Nawdd Cymdeithasol

Y rhagolwg mwyaf arwyddocaol o ran cost yw'r Taliad Anabledd i Oedolion, sy'n gofyn am lai o dystiolaeth o'u hanabledd gan ymgeiswyr, ac felly disgwylir iddo ddenu mwy o hawlwyr ac i'r gyfradd wobrwyo fod yn uwch nag y mae ar gyfer y budd-dal a gedwir yn ôl y mae'n ei ddisodli (y Taliad Annibyniaeth Personol).

Rhagwelir felly y bydd cost y budd-dal hwn yn uwch na'r Taliad Annibyniaeth Personol ac mae'r gwariant ychwanegol hwn yn syrthio ar Lywodraeth yr Alban yn unig (hynny yw, nid yw'n dod o dan y cyllid a ddarperir i Lywodraeth yr Alban i adlewyrchu'r ffaith bod y budd-dal hwn bellach wedi'i ddatganoli, drwy'r "addasiad grant bloc").


Mae Taliad Plant yr Alban yn fudd-dal datganoledig newydd, ac mae'n un o bolisïau blaenllaw Llywodraeth bresennol yr Alban. Gwelir hwn fel un o'r prif bolisïau i liniaru tlodi plant yn yr Alban – ac, yn hollbwysig, i helpu Llywodraeth yr Alban i gyrraedd targedau statudol heriol iawn ar gyfer tlodi plant.

Mae Taliad Plant yr Alban yn daliad uniongyrchol i aelwydydd gyda phlant sy'n cael budd-daliadau cymwys (fel Credyd Cynhwysol). Gan ddechrau ar £10 yr wythnos i blant dan 5 oed, mae bellach wedi cyrraedd £25 yr wythnos ac wedi cael ei ymestyn i blant cymwys o dan 16 oed. Bydd bron yn dyblu mewn termau nominal rhwng 2022/23 a 2023/24.

Mae canlyniad net yr ymrwymiadau hyn, ac ymrwymiadau eraill, o ran nawdd cymdeithasol yn golygu y bydd y gwariant ar nawdd cymdeithasol datganoledig a amcangyfrifir yn codi £1biliwn mewn blwyddyn (gweler Ffigur 1).

## Ffigur 1: Rhagolygon ar gyfer cyfanswm y gwariant ar nawdd cymdeithasol, 2021-22 i 2027-28 (£ biliwn)

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales




*Ffynhonnell: Comisiwn Cyllidol yr Alban*

Felly, yn gyffredinol, mae disgwyl i Nawdd Cymdeithasol Datganoledig yn yr Alban gynyddu i £7.3 biliwn erbyn 2027-28.


Yn hollbwysig, mae bwlch cynyddol rhwng y gyllideb nawdd cymdeithasol a'r cyllid a geir gan Lywodraeth y DU drwy Addasiadau i'r Grant Bloc (gweler mwy am hyn isod). Mae'r bwlch cyllido hwn yn adlewyrchu'r gwahanol ddewisiadau a wnaed ynghylch nawdd cymdeithasol gan Lywodraethau'r DU a'r Alban ac, yn benodol, mae'n ganlyniad i ddau ddewis polisi a wnaed yn yr Alban:

- Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno budd-daliadau newydd nad ydynt ar gael mewn mannau eraill yn y DU, megis Tâl Atodol y Lwfans Gofalwr a'r Taliad Plant yn yr Alban.

- Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno proses ymgeisio wahanol ar gyfer budd-daliadau anabledd sydd newydd eu datganoli ac y disgwylir iddynt arwain at nifer uwch o hawlwyr na'r budd-daliadau a gedwir yn ôl y maent yn eu disodli.

Rhaid i'r cyllid llenwi bwlch hwn gael ei fodloni'n llwyr o fewn cyllideb yr Alban. Rhagwelir y bydd yn mwy na dyblu yn ystod 2023/24 i £776m (18% o'r Addasiad i'r Grant Bloc) ac yn cynyddu i £1.4 biliwn (25% o'r Addasiad i'r Grant Bloc) erbyn 2027/28.

Ffigur 2: Sefyllfa net nawdd cymdeithasol a thaliadau newydd, 2022-23 i 2027-28




*Ffynhonnell: Comisiwn Cyllidol yr Alban*

Mae data diweddar wedi dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr oedolion sy'n cael budd-daliadau anabledd yn yr Alban yn y cyfnod ers y pandemig. Mae Comisiwn Cyllidol yr Alban yn priodoli'r cynnydd hwn i effaith gyfun y ffactorau canlynol:

- Pobl gymwys sy'n ystyried ffynonellau cymorth mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.
- Pobl sy'n aros yn hwy am driniaeth gan y GIG, a allai arwain at gyflyrau'n gwaethygu neu driniaeth yn llai effeithiol, i'r fath raddau nes eu bod yn dod yn gymwys i gael budd-daliadau anabledd.
- Effeithiau hirdymor parhaus COVID-19, gan gynnwys COVID hir ac effeithiau ehangach y pandemig ar iechyd meddwl.

Mae hyn, ynghyd â chwyddiant uwch, yn gwthio costau budd-daliadau datganoledig i fyny ar adeg pan fo'r amgylchedd cyllido ehangach yn heriol iawn.

Mae’r dewisiadau polisi hyn yn cyd-fynd â nodau ehangach Llywodraeth yr Alban, sydd wedi canolbwyntio’n benodol ar leihau tlodi plant. Nid oes amheuaeth na fyddant yn lleihau tlodi plant yn uniongyrchol ac maent wedi cael eu croesawu gan ymgyrchwyr anabledd.

Serch hynny, mae effaith y dewisiadau hyn yn cael ei theimlo mewn mannau eraill wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn yr Alban. Mae nawdd cymdeithasol datganoledig yn cyfrif am 10% o Gyllideb yr Alban yn 2023-24 – bydd hyn yn cynyddu i 13% erbyn 2027-28. Mewn amgylchedd cyllido cyfyngedig, mae hyn yn golygu bod rhannau eraill o’r gyllideb yn wynebu toriadau.

## Cynaliadwyedd Cyllidol Hirdymor

Felly, mae’r sgwrs yn yr Alban yn troi at gynaliadwyedd cyllidol dewisiadau o’r fath yn y tymor hir.

Mae Comisiwn Cyllidol yr Alban wedi rhyddhau ei Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol cyntaf yn ddiweddar.  Mae hyn yn wahanol i’w rhagolygon pum mlynedd rheolaidd o’r economi, derbyniadau trethi datganoledig a nawdd cymdeithasol. Yn hytrach, mae’r dadansoddiad hwn yn rhagweld cyllido a gwario hyd at 2072-73 i archwilio pa mor gynaliadwy yw polisïau cyfredol ar dreth a gwariant, o ystyried ffactorau demograffig a ffactorau eraill sy’n debygol o roi pwysau ar gyllid cyhoeddus.

Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth yr Alban yn wynebu heriau sylweddol o ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae’r Cyngor Cyllido’r Alban yn tynnu sylw at y ffaith y bydd gwariant ar wasanaethau cyhoeddus dros y 50 mlynedd nesaf yn cynyddu oherwydd pwysau yn sgil costau cyflenwi yn codi a phoblogaeth sy’n heneiddio.

Gan adeiladu ar y tueddiadau o’r blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y bydd gwariant ar iechyd yn tyfu’n gyflymach na’r gwariant ar wasanaethau eraill, gan gynyddu o tua thraean o gyfanswm y gwariant datganoledig, fel mae pethau’n sefyll nawr, i tua hanner mewn 50 mlynedd.


Yn bwysig iawn, bydd y cynnydd yn y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn digwydd cyn y cynnydd tebygol yn y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth yr Alban (o’r Grant Bloc ac o drethi datganoledig).

Er gwaethaf datganoli trethi’n sylweddol, mae Cyllideb yr Alban yn dal i gael ei hariannu’n bennaf o’r grant bloc, sy’n gysylltiedig â lefelau gwariant ar wasanaethau datganoledig yn Lloegr. Mewn geiriau eraill, mae cynaliadwyedd ariannol polisïau gwariant a threth Llywodraeth yr Alban yn gysylltiedig â chynaliadwyedd yr elfennau hynny yn Llywodraeth y DU.

Y pennawd yma yw, o dan bolisïau cyllidol presennol yr Alban a'r DU, os bydd gwasanaethau cyhoeddus yn yr Alban yn parhau i gael eu darparu fel y maent heddiw, bydd gwariant Llywodraeth yr Alban dros y 50 mlynedd nesaf yn fwy na'r cyllid yr amcangyfrifir y bydd ar gael – o 1.7% bob blwyddyn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae hyn yn wyneb sefyllfa anghynaladwy ar lefel y DU, fel yr amlinellir yn adroddiad diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Pe bai Llywodraeth y DU yn symud tuag at sefyllfa fwy cynaliadwy ar gyfer y DU drwyddi draw, 10.1% fyddai'r bwlch cyllideb cyfartalog yn yr Alban.

Er mai'r prif ffactor cyfrannol yn y tymor hir yw gwariant ar iechyd, yn negawd cyntaf yr amcanestyniad, neu oddeutu hynny, mae gwariant ar nawdd cymdeithasol hefyd yn cyfrannu, yn enwedig wrth i'r gwariant tybiedig ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd gynyddu.

Ffigur 3: Twf gwariant demograffig yn ôl math o daliad nawdd cymdeithasol




*Ffynhonnell: Comisiwn Cyllidol yr Alban*

Yng nghanol y 2040au, mae pwysau demograffig am i lawr gan fod gwaith modelu Cyngor Cyllido'r Alban yn adlewyrchu'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Yn y tymor byr, bydd hyn yn lleihau maint y boblogaeth sydd dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac oherwydd bod pobl sydd dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn fwy tebygol o gael budd-daliadau nawdd cymdeithasol, bydd yn arwain at ostyngiad yn y llwyth achosion. Ar gyfer gweddill y cyfnod amcan, mae amcanestyniadau o'r boblogaeth yn arwain at lai o bwysau ar wariant nawdd cymdeithasol wrth i boblogaeth yr Alban ostwng – sy'n ddigalon braidd.

## Y Broses Weithredu, Costau a Staffio

Nid yw gweithredu pwerau nawdd cymdeithasol newydd yr Alban wedi bod yn hawdd, ac – yn enwedig wrth bontio o'r Taliadau Annibyniaeth Personol i'r taliadau datganoledig cyfatebol – mae'r broses weithredu wedi tueddu i gymryd mwy o amser a bod yn fwy costus na'r disgwyl.

Mae hyn wedi bod yn destun nifer o adroddiadau gan Audit Scotland, y corff gwarchod gwariant yn yr Alban.

I ddechrau, amcangyfrifwyd mai £308 miliwn oedd y costau gweithredu ar gyfer y rhaglen gyffredinol. Mae hyn wedi cynyddu i'r amcangyfrif presennol o £685 miliwn hyd at 2025-26. Mae hyn yn rhannol oherwydd, yn hytrach na'r rhaglen 4 blynedd arfaethedig (a oedd i fod i gael ei chwblhau erbyn 2021-22), amcangyfrifir yn awr y bydd yn cymryd 8 mlynedd i gyflawni'r pecyn budd-daliadau datganoledig yn llawn.

Mae lefel y staffio sydd ei hangen i weithredu a gweinyddu'r budd-daliadau datganoledig hefyd wedi bod yn llawer mwy nag a ragwelwyd. Roedd Llywodraeth yr Alban wedi nodi i ddechrau y byddai Social Security Scotland yn cyflogi o leiaf 1,900 o staff – mae ei waith cynllunio'r gweithlu presennol yn dangos y bydd ganddo dros 3,500 o staff erbyn Gwanwyn 2023.

## Addasiadau i'r Grant Bloc a Nawdd Cymdeithasol

Mae'r fframwaith cyllidol yn disgrifio sut y dylid addasu'r cyllid ar gyfer Cyllideb yr Alban ar ôl datganoli trethi a nawdd cymdeithasol. Gelwir y newidiadau hyn i gyllid yn Addasiadau Grant Bloc (BGA).

Mae'r Addasiadau Grant Bloc ar gyfer treth yn tynnu cyllid o Gyllideb yr Alban, oherwydd mae Llywodraeth yr Alban yn awr yn codi ei refeniw treth ei hun. Mae Addasiadau Grant Bloc ar gyfer nawdd cymdeithasol yn ychwanegu cyllid, oherwydd mae Llywodraeth yr Alban wedi dod yn gyfrifol am daliadau nawdd cymdeithasol.

Mae Addasiadau Grant Bloc yn seiliedig ar refeniw neu wariant yn yr Alban y flwyddyn cyn datganoli, ac yna'n cael eu haddasu yn unol â'r cynnydd yn refeniw neu wariant Llywodraeth y DU y pen ar y taliadau nawdd cymdeithasol a'r trethi cyfatebol. Mae'r addasiadau wedi'u llunio i adlewyrchu'r swm damcaniaethol a fyddai wedi cael ei godi neu ei wario yn yr Alban pe na bai'r trethi a'r taliadau wedi cael eu datganoli.

Un ffordd o feddwl am yr Addasiadau Grant Bloc hyn yw eu bod yn adlewyrchu'r gwariant y mae Llywodraeth y DU wedi'i arbed o ganlyniad i beidio â darparu'r budd-dal yn yr Alban mwyach. I bob pwrpas, mae'r Addasiad Bloc Grant yn dweud: Pe na bai'r Lwfans Gofalwr (er enghraifft) wedi cael ei ddatganoli, faint fyddai Llywodraeth y DU wedi'i wario ar y Lwfans Gofalwr yn yr Alban? Mae'r amcangyfrif hwn yn cael ei drosglwyddo i gyllideb yr Alban.

Nid yw'n swm sydd wedi'i glustnodi. Os yw Llywodraeth yr Alban yn gwario mwy ar daliad yn yr Alban nag a drosglwyddwyd drwy'r Addasiad Bloc Grant (er enghraifft, os yw'n sefydlu polisi sydd mewn rhyw ffordd yn fwy hael na'r hyn a ddarperir yng Nghymru a Lloegr), byddai'n rhaid iddi ddod o hyd i adnoddau ychwanegol o fannau eraill yn ei chyllideb (drwy godi trethi neu leihau gwariant mewn meysydd eraill).

Ar y llaw arall, os yw Llywodraeth yr Alban yn gwario llai ar daliad nag y mae'n ei gael yn yr Addasiad Bloc Grant, gall ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol ar gyfer gwariant cyhoeddus datganoledig mewn meysydd eraill, neu leihau trethi.

Mae dwy elfen i gyfrifo Addasiad Grant Bloc:

- Ychwanegiad cychwynnol. Dyma'r swm y mae Llywodraeth y DU wedi'i wario ar daliad (ee Lwfans Gofalwr) yn yr Alban y flwyddyn cyn datganoli'r taliad hwnnw.
- Mesur mynegeio: mesur o'r twf mewn gwariant ar daliadau nawdd cymdeithasol 'cymaradwy' y pen yng Nghymru a Lloegr.

Dangosir hyn yn sgematig yn Ffigur 4, gan ddefnyddio'r Lwfans Gofalwr fel enghraifft ddamcaniaethol.

Ffigur 4: Cyfrifo'r Addasiad Grant Bloc: enghraifft o Lwfans Gofalwr Llywodraeth y DU




*Ffynhonnell: FAI*

I bob pwrpas, yr hyn y mae cyfrifiad yr Addasiad Grant Bloc yn ei ddweud yw: Gadewch i ni dybio, pe na bai'r Lwfans Gofalwr wedi cael ei ddatganoli, y byddai gwariant Llywodraeth y DU arno yn yr Alban wedi tyfu ar yr un gyfradd y pen ag yng Nghymru a Lloegr. Mae'r swm hwn yn cael ei drosglwyddo i gyllideb yr Alban, ac os yw Llywodraeth yr Alban yn gwario mwy arno (fel sydd wedi digwydd yn 2019/20 ar ôl talu Tâl Atodol y Lwfans Gofalwr yn yr Alban), mae cyllideb yr Alban yn ysgwyddo'r gost ychwanegol.

Un o nodweddion yr Addasiad Grant Bloc yw bod cyllideb yr Alban yn cael ei diogelu yn erbyn ffactorau sy'n cynyddu gwariant y pen ar y taliadau ledled y DU yn gyffredinol. Er enghraifft, i'r graddau y mae llawer o'r taliadau sy'n cael eu trosglwyddo yn fwy tebygol o gael eu hawlio gan grwpiau oedran hŷn, yna bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn awgrymu gwariant uwch y pen.

Rhagwelir y bydd poblogaeth grwpiau oedran hŷn yn yr Alban yn cynyddu, gan awgrymu gwariant uwch yn yr Alban. Ond rhagwelir y bydd poblogaeth grwpiau hŷn yng Nghymru a

Lloegr yn cynyddu hefyd, a fydd yn arwain at gynnydd ym maint yr Addasiadau Grant Bloc. Ar y llaw arall, mae cyllideb yr Alban yn agored i'r risg o dwf cyflymach mewn gwariant y pen ar y taliadau sy'n cael eu trosglwyddo o'i gymharu â gwariant y pen ar y taliadau cyfatebol yng Nghymru a Lloegr.

Gallai'r canlyniad hwn godi pe bai'r taliadau'n fwy hael yn yr Alban nag yng Nghymru a Lloegr, naill ai o ran meini prawf cymhwysedd neu symiau'r taliadau. Ond gallai godi hefyd os bydd poblogaeth yr hawlwyr cymwys yn tyfu'n gyflymach yn yr Alban nag yng Nghymru a Lloegr. Meddyliwch eto am y mater demograffig a ddisgrifir uchod. Disgwylir i gyfran y grwpiau hŷn dyfu yn yr Alban ac yng Nghymru a Lloegr. Ond disgwylir iddo dyfu rhywfaint yn gyflymach yn yr Alban.

Felly, er y gallai effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio yn yr Alban ar wariant nawdd cymdeithasol gael eu gwrthbwyso i raddau gan gynnydd yn yr Addasiadau Grant Bloc, nid ydynt yn debygol o gael eu gwrthbwyso'n llawn. Mae'n bosibl felly y gallai gwariant ar nawdd cymdeithasol yn yr Alban yn y dyfodol fod yn uwch na'r adnoddau a drosglwyddir drwy'r Addasiadau Grant Bloc, nid oherwydd newid polisi, ond oherwydd tueddiadau demograffig gwahaniaethol.

Gellid dadlau a fyddai'r canlyniad hwn yn 'deg' a pha un a oedd y nodwedd fwriadol o'r mecanwaith cyllido ai peidio.

## Cysoni a Rheoli'r Gyllideb yn ystod y Flwyddyn

Dyma sut mae'n gweithio mewn theori, felly. Fodd bynnag, pan fydd cyllidebau'n cael eu pennu yn yr Alban (fe'u cyflwynir fel arfer i'r senedd ym mis Rhagfyr) nid yw'r gwariant yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn honno'n hysbys eto, ac mae angen i'r Addasiad Grant Bloc fod yn seiliedig ar ragolwg.

Mae'n anochel y bydd y rhagolygon yn anghywir, felly mae angen proses ar gyfer cysoni'r rhagolygon hyn â'r alldro terfynol.

O ran treth, mae hyn yn gweithio'n wahanol ar gyfer treth incwm o'i gymharu â threthi sydd wedi'u datganoli'n llawn. Mae hyn yn berthnasol oherwydd y rhyngweithio â nawdd cymdeithasol, felly byddwch yn amyneddgar!

- Ar gyfer treth incwm, nid yw'r data alldro terfynol ar gael am gryn amser ar ôl y flwyddyn ariannol dan sylw, o ystyried yr angen i ymgorffori derbynebau hunanasesu yn y mesur blynyddol. Mae hyn yn adeiladu ar gyfres gymhleth o ragolygon a chysoniadau ym mhroses y Gyllideb:
    - Cyflwynwyd y Gyllideb ar gyfer 2020-21 ym mis Rhagfyr 2019, a chafodd ei seilio ar ragolygon Cyngor Cyllido'r Alban o dderbyniadau Treth Incwm yr Alban;
    - Cyhoeddir y data alldro ym mis Gorffennaf 2022;

- Gwneir cysoniad (cadarnhaol neu negyddol) yn unol â'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth yr Alban yng Nghyllideb 2023-24 sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y rhagolwg a'r alldro ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn ystyried, ar hyn o bryd, y gwahaniaeth rhwng yr Addasiad Grant Bloc a ragwelwyd ar adeg pennu'r gyllideb o'i gymharu â'r alldro terfynol. Felly, mae dwy set wahanol o wallau sy'n cyfrannu at hyn o ran rhagolygon. Gall Llywodraeth yr Alban ddefnyddio pwerau benthyca adnoddau i helpu i reoli hyn os yw'r cysoniadau'n negyddol (gweler isod).
- Ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn, mae'r broses ychydig yn symlach:
  - Pan bennir y gyllideb, ceir rhagolygon a ddefnyddir i bennu'r amlen gyllidebol ar gyfer pob un o'r trethi datganoledig. Mae Llywodraeth yr Alban wedyn yn casglu'r rhain drwy Gyllid yr Alban, ac os oes unrhyw wahaniaethau rhwng y rhagolwg a'r alldro, rhaid i Lywodraeth yr Alban reoli'r rhain yn ystod y flwyddyn.
  - Fodd bynnag, mae'r Addasiadau Grant Bloc ar gyfer y trethi hyn yn cael eu cysoni, ac mae hyn yn digwydd mewn dau gam. Cysoniad yn ystod y flwyddyn yw'r cam cyntaf, sydd fel arfer yn digwydd o fewn yr un flwyddyn ariannol, ar sail rhagolygon diweddaraf a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer digwyddiad cyllidol yr hydref Llywodraeth y DU. Daw data alldro ar gael yn yr hydref ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. Gan ddefnyddio'r ffigurau alldro hyn, cymhwysir cysoniad terfynol i'r Grant Bloc yn y flwyddyn ariannol ddwy flynedd ar ôl cymhwyso'r Addasiad Grant Bloc gwreiddiol.

Mae'r broses ar gyfer nawdd cymdeithasol datganoledig yr un fath ag y mae ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn. Felly, os bydd gwariant yn ystod y flwyddyn yn uwch na'r disgwyl, rhaid i Lywodraeth yr Alban reoli hynny o fewn y flwyddyn. Mae gweithgarwch benthyca adnoddau y gellir ei ddefnyddio i reoli arian parod yn ystod y flwyddyn wedi'i gyfyngu i £500 miliwn (a bennir ar hyn o bryd mewn termau ariannol), a gellir gweld sut y gallai hynny fod yn annigonol o ystyried maint y taliadau a gwmpesir gan nawdd cymdeithasol datganoledig. Hefyd, un pot yw hwn ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn a nawdd cymdeithasol.

Mae alldro'r Addasiad Grant Bloc hefyd yn ychwanegu cysoniadau at y Gyllideb yn y blynyddoedd dilynol, ar ben y rheini sydd wedi'u cymhwyso ar gyfer treth incwm. Mae cyfyngiad o £300 miliwn (neu £600 miliwn yn achos "Sioc Economaidd sy'n Benodol i'r Alban[1]") ar fenthyca adnoddau ar gyfer gwall a ragwelir, a dylai hyn fod yn ddigonol ar gyfer pob cysoniad (a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, cofiwch).

[1] diffinnir hyn fel a ganlyn: pan fydd twf cynnyrch domestig gros (GDP) gwirioneddol yr Alban ar y tir yn is nag 1% mewn termau absoliwt ar sail pedwar chwarter treigl, ac un pwynt canran yn is na thwf GDP gwirioneddol y DU dros yr un cyfnod, a gallai gael ei sbarduno gan ddata alldro neu ragolygon. Yn ddiddorol iawn, o ystyried bod hyn yn cael ei ddiffinio yn Neddf yr Alban, am y tro cyntaf mae'n golygu bod dyletswydd statudol i gynhyrchu data GDP yr Alban.

Felly, ar gyfer y Gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2023-24, roedd cysoniad bach o -£15 miliwn. Mae hyn yn golygu swm cysoniad o +£50 miliwn ar gyfer treth incwm sy'n ymwneud â blwyddyn 2020-21, -£35 miliwn a +£31 miliwn ar gyfer cysoniad terfynol y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn a'r taliadau nawdd cymdeithasol datganoledig sy'n ymwneud â blwyddyn 2021-22. Mae hyn yn gwneud i'r pwerau benthyca edrych yn rhesymol.

Fodd bynnag, ar gyfer y gyllideb ar gyfer 2021-22, roedd cysoniad negyddol o -£309 miliwn oherwydd treth incwm, nad yw o reidrwydd yn ganlyniad annisgwyl o ystyried maint y dreth. Gall y cynnydd yn y cyfrifoldebau o ganlyniad i nawdd cymdeithasol wneud y rhain hyd yn oed yn fwy yn y dyfodol.

## Datblygiadau Diweddar

Mae cyhoeddiadau diweddar yn tynnu sylw at rai o gymhlethdodau datganoli rhannau o'r system nawdd cymdeithasol yn rhannol i rai ardaloedd o Brydain.

Un o'r prif gyhoeddiadau yng Nghyllideb y Gwanwyn oedd y bydd yr Asesiad Gallu i Weithio (sy'n pennu premiwm ar gyfer Credyd Cynhwysol i bobl anabl) yn cael ei ddiddymu ac y bydd yr asesiad presennol ar gyfer derbyn Taliad Annibyniaeth Personol yn cael ei ddefnyddio fel pasbort yn lle hynny.

Ni ddaw hyn i rym tan y senedd nesaf, felly mae rhywfaint o amser i gyfrifo'r manylion. Ar draws y DU, mae cwestiwn ynghylch sut i ddelio â'r ffaith nad yw bron i filiwn o bobl sy'n cael y premiwm hwn ar hyn o bryd yn hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol.

Yn yr Alban, fodd bynnag, mae'n fwy cymhleth fyth. Os oes gan y Taliad Anabledd i Oedolion feini prawf cymhwysedd mwy hael na'r Taliad Annibyniaeth Personol, yna bydd cwestiwn ynghylch a ellir defnyddio hyn hefyd i drosglwyddo hawlwyr i'r premiwm Credyd Cynhwysol uwch. Bydd angen penderfynu hefyd sut y bydd yn gweithio i'r rheini nad ydynt yn hawlio'r Taliad Anabledd i Oedolion yn yr Alban.

Yn seiliedig ar ddatganiadau blaenorol gan Lywodraeth y DU, mae 3 phosibiliad:

- Defnyddir y Taliad Anabledd i Oedolion yn yr Alban fel y 'pasbort' i gael y premiymau anabledd o fewn Credyd Cynhwysol yn lle'r Taliad Annibyniaeth Personol, a bydd Llywodraeth y DU yn llyncu'r premiymau Credyd Cynhwysol ychwanegol yn yr Alban os bydd cymhwysedd y Taliad Anabledd i Oedolion yn newid.
- Bydd Llywodraeth yr Alban yn talu'r gwahaniaeth mewn premiymau Credyd Cynhwysol a hawlir os bydd cymhwysedd y Taliad Anabledd i Oedolion yn newid. Gallai'r risg hon fod yn ddigon i atal Llywodraeth yr Alban rhag newid cymhwysedd y Taliad Anabledd i Oedolion ymhellach (hynny yw, gallai newid y gymhareb cost/budd yn eithaf sylweddol)
- Gallai Llywodraeth y DU benderfynu bod y cymhwysedd ar gyfer y Taliad Anabledd i Oedolion yn debygol o wyro'n rhy bell oddi wrth y cymhwysedd ar gyfer y Taliad

Annibyniaeth Personol, gan ei hysgogi i ddod o hyd i ffordd arall o benderfynu ar gymhwysedd ar gyfer premiymau Credyd Cynhwysol – drwy gadw'r Asesiad Gallu i Weithio yn yr Alban, er enghraifft.

Mae hyn yn rhywbeth y byddwn efallai'n gweithio arno yn yr adolygiad o'r fframwaith cyllidol.

Yr Athro Mairi Spowage

Mawrth 2023

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

**Atodiad 2: Nodyn briffio Llywodraeth Cymru 31 Mai 2023**

**Pwrpas y nodyn briffio**

Yn dilyn y cyfarfod rhwng y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ac aelodau'r is-grŵp lles ar 18 Ebrill, gofynnwyd cwestiynau dilynol mewn perthynas â'r gwaith ar ddatganoli gweinyddiaeth budd-daliadau. Mae'r nodyn briffio hwn yn ymateb i'r cwestiynau hyn.

***Cwestiynau:*** ***Beth yw ystyr gweinyddu budd-daliadau, beth fyddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w wneud, a beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gwaith hwn?***

Cyflwyniad

1. O ystyried lefel y manylion sy'n gysylltiedig â darparu budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn y DU sydd wedi'u gwreiddio mewn rheoliadau, nid yw'n hawdd diffinio beth sy'n broses weinyddol y gellir ei haddasu (heb fod angen diwygio deddfwriaeth nawdd cymdeithasol y DU) i sicrhau canlyniadau gwell i hawlwyr yng Nghymru.

2. Daeth yr ymchwil a wnaed gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru[2] i'r casgliad bod y *gwahaniaeth rhwng polisi lles a gweinyddiaeth yn fater dryslyd a dadleuol a bydd angen trafodaethau cymhleth gyda Llywodraeth y DU er mwyn datrys hyn*.

Beth yw Gweinyddu Lles?

3. Yn ei ystyr symlaf, gellir ystyried gweinyddu lles fel y tasgau a gyflawnir wrth gymhwyso'r ddeddfwriaeth i brosesu hawliadau am fudd-dal nawdd cymdeithasol. Er enghraifft, mae cyfrifo uchafswm Credyd Cynhwysol hawlydd yn 'dasg weinyddol' o ystyried bod y broses yn golygu nodi'r symiau priodol i'w cynnwys yn y cyfrifiad o'r darpariaethau a nodir yn Rhan 4 o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013.

4. Fodd bynnag, nid yw cael pwerau gweinyddol ar gyfer lles yn rhoi unrhyw bŵer i wyro oddi wrth ddeddfwriaeth nawdd cymdeithasol wrth brosesu hawliad am fudd-dal. Er enghraifft, ni fyddai bod yn gyfrifol am weinyddu Credyd Cynhwysol yn cynnig cyfle i newid y sefyllfa lle mae uchafswm Credyd Cynhwysol tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei leihau oherwydd bod ganddynt ystafell wely sbâr.

5. Mae'r broses o sicrhau bod hawlydd yn cael ei daliad Credyd Cynhwysol yn swyddogaeth weinyddol yn ddi-os, ac felly byddai'n rhesymol tybio bod cytuno ar amseriad/amlder y taliad hefyd yn swyddogaeth weinyddol.

[2] 200110-Administering-social-security-in-Wales-evidence-on-potential-reforms.pdf (wcpp.org.uk)

6. Fodd bynnag, o ystyried y manylion sydd yn y rheoliadau ar gyfer rhai budd-daliadau, nid yw hyn bob amser yn wir. Er enghraifft, gan mai un o brif amcanion polisi'r Credyd Cynhwysol yw bod taliadau'n 'adlewyrchu'r byd gwaith,' mae amseriad/amlder taliad Credyd Cynhwysol yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth[3]. Felly, er mai tasg weinyddol yw sicrhau bod hawlydd yn cael ei daliad Credyd Cynhwysol, nid tasg weinyddol yw penderfynu ar amseriad/amlder[4] y taliad.

Diffinio Gweinyddu Lles

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatrys y dryswch sy'n ymwneud â gwahanu 'polisi' a 'gweinyddu' budd-daliadau nawdd cymdeithasol, ac mae cynnig wedi'i ddrafftio ar gyfer cynnal ymchwil a fydd yn:

    - darparu diffiniad annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r swyddogaethau penodol sy'n dod o dan y diffiniad o weinyddu lles.
    - nodi'r canlyniadau ffafriol y gellid eu cyflawni yn sgil Llywodraeth Cymru yn cael y pŵer i gyflawni'r swyddogaethau gweinyddol hyn, ac
    - ystyried pam mae'r trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol yn atal y canlyniadau hyn rhag cael eu cyflawni ac a ellid cyflawni unrhyw rai o'r canlyniadau hyn o fewn y setliad datganoli presennol.

8. Bydd yr ymchwil yn darparu tystiolaeth a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yn y dyfodol) i gytuno ar y cyd ar y diffiniad o weinyddu lles a'r camau gweithredu sydd o fewn cwmpas y diffiniad.

Gwaith ar y Gweill – Gweinyddu Lles

9. Fel rhan o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi datganoli'r gwaith o weinyddu lles ac archwilio'r seilwaith angenrheidiol sydd ei angen i baratoi ar gyfer hyn. Byddai angen trosglwyddo'r cymorth ariannol priodol i gyd-fynd â throsglwyddo pŵer o'r fath.

10. Ochr yn ochr â'r ymchwil arfaethedig (a amlinellir uchod), mae meysydd gwaith eraill yn cael eu datblygu, a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen i gyflawni unrhyw bwerau yn y dyfodol yn effeithiol ar gyfer gweinyddu lles. Mae hyn yn cynnwys:

    A. Siarter Budd-daliadau Cymru

    Mae datblygu Siarter Budd-daliadau Cymru wrth galon y gwaith rydym yn ei wneud i symleiddio system fudd-daliadau Cymru a pharatoi strwythur

[3] Rheoliadau Credyd Cynhwysol, y Taliad Annibyniaeth Personol, y Lwfans Ceisio Gwaith a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Hawliadau a Thaliadau) 2013
[4] Cafodd deddfwriaeth ei chynnwys yn Neddf yr Alban 2016 i alluogi Gweinidogion yr Alban i gael rheolaeth dros amlder taliadau Credyd Cynhwysol i hawlwyr sy'n byw yn yr Alban.

gweinyddu sy'n addas i'r diben. Bydd yr egwyddorion yn y Siarter yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu system fudd-daliadau gydlynol yng Nghymru sy'n seiliedig ar hawliau, sy'n cyd-gysylltiedig ac yn dosturiol, ac sy'n rhoi pobl wrth galon y gwaith dylunio a darparu; a dim ond unwaith y bydd angen iddynt adrodd eu stori er mwyn cael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Wrth i ni gwblhau'r Siarter ddrafft, rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â phobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru a phartneriaid sy'n darparu budd-daliadau yng Nghymru. Bydd eu gwybodaeth a'u profiad hefyd yn llywio'r cynlluniau ar gyfer gweithredu'r Siarter yn llwyddiannus.

B. Symleiddio Gweinyddiaeth Budd-daliadau yng Nghymru

Ar 4 Ebrill, cyhoeddodd Sefydliad Bevan yr adroddiad Polisi ar Waith *'Dull cyffredin o ymdrin â budd-daliadau Cymru - Astudiaeth dichonoldeb*[5]*'*. Mae'r ymchwil yn nodi dau brif lwybr y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth weithredu dull mwy unffurf: dull gweithredu canolog gyda chronfa ddata ganolog a/neu borth ymgeisio canolog, neu ddull gweithredu mwy unffurf o fewn y strwythurau presennol. Croesewir yr adroddiad Polisi ar Waith, ac rydym yn ymgysylltu â Sefydliad Bevan, Polisi ar Waith, arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol (a phartneriaid cyflenwi eraill) i wneud penderfyniadau gwybodus ar rinweddau pob un o'r argymhellion, ac yn gweithio gyda llywodraeth leol i bennu cynllun gweithredu ar gyfer symleiddio'r gwaith o weinyddu budd-daliadau yng Nghymru.

C. Dadansoddiad o Fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau

Rydym yn edrych ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol allweddol yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda rhanddeiliaid i ganfod a dadansoddi'r problemau y mae unigolion yn eu hwynebu wrth hawlio a chynnal eu hawliau. Bydd canlyniadau'r ymchwil hwn yn galluogi gwraidd problem i gael ei nodi fel un sy'n deillio o broses weinyddol (sydd â'r potensial i gael ei oresgyn os oes gan Lywodraeth Cymru bwerau gweinyddol dros les) neu'n ganlyniad i'r ddeddfwriaeth/polisi sy'n sail i fudd-dal penodol, ac yn rhoi dealltwriaeth gliriach o effaith bosibl newidiadau mewn cyfrifoldeb dros weinyddu budd-daliadau.

[5] Final-A-data-view-of-a-common-approach-to-Welsh-benefits-Bevan.pdf (bevanfoundation.org)

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

**Atodiad 3: Nodyn briffio Llywodraeth Cymru ar 31 Mai 2023 ar y system fudd-daliadau a charcharorion a cheiswyr lloches**

***<u>Cwestiwn</u>: A yw'n debygol y byddai'r model datganoli gweinyddol yn golygu bod modd mynd ar drywydd y posibiliadau hyn?***

***a) Y posibilrwydd o alluogi carcharorion i wneud cais am fudd-daliadau cyn cael eu rhyddhau, er mwyn hwyluso adsefydlu.***

1. O dan ddeddfwriaeth nawdd cymdeithasol, caniateir hawliadau ymlaen llaw am fudd-daliadau gan grwpiau penodol o hawlwyr. Fodd bynnag, derbynnir hawliadau o'r fath yn ôl disgresiwn Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

2. Er enghraifft, mae Rheoliad 32 o Reoliadau Credyd Cynhwysol, Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Hawliadau a Thaliadau) 2013[6] yn caniatáu i *hawliadau Credyd Cynhwysol gael eu gwneud hyd at fis ymlaen llaw os yw'r achos yn dod o fewn dosbarth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn hawliadau ymlaen llaw ar ei gyfer.* Mae canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar Wneud Penderfyniadau[7] yn cadarnhau bod carcharorion yn *ddosbarth y gall yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyn hawliadau ymlaen llaw ar ei gyfer.*

3. Fodd bynnag, mae swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi egluro *nad oes cyfleuster ar hyn o bryd i garcharorion nac unrhyw grwpiau eraill o bobl wneud hawliad Credyd Cynhwysol cyn gadael gofal sefydliadol.* Mae hyn ar y sail bod *Credyd Cynhwysol yn fudd-dal digidol, felly ni all pobl sy'n gadael y carchar wneud hawliad cyn cael eu rhyddhau... oherwydd cyfyngiadau ar ddefnyddio cyfrifiaduron mewn carchardai.*

4. Fodd bynnag, mae llawer o resymau pam na fydd person yn gallu gwneud a chynnal ei hawliad Credyd Cynhwysol ar-lein, fel nam ar y golwg, diffyg llythrennedd sylfaenol a chyfyngiadau cyfreithiol. Dyna pam mae'r rheoliadau[8] yn datgan, er bod hawliadau Credyd Cynhwysol yn *ddigidol yn ddiofyn, lle nad yw'n bosibl gwneud hawliad digidol, y gellir gwneud hawliad newydd dros y ffôn os yw'r hawliad yn dod o fewn dosbarth achos y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn hawliadau ffôn ar ei gyfer*.

5. O ystyried y gall Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau dderbyn hawliadau ymlaen llaw am Gredyd Cynhwysol a bod gan rai pobl hawl (yn ôl

6 Rheoliadau Credyd Cynhwysol, y Taliad Annibyniaeth Personol, y Lwfans Ceisio Gwaith a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Hawliadau a Thaliadau) 2013

7 ADM A2048 Hawliadau Ymlaen Llaw am Gredyd Cynhwysol

8 Rheoliadau Credyd Cynhwysol, y Taliad Annibyniaeth Personol, y Lwfans Ceisio Gwaith a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Hawliadau a Thaliadau) 2013

disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol) i wneud eu cais dros y ffôn, os nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn derbyn 'dim' hawliadau ymlaen llaw am Gredyd Cynhwysol, mae'n ymddangos nad yw eu polisi'n cyd-fynd â deddfwriaeth. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

***b) Y posibilrwydd o alluogi ceiswyr lloches i weithio a/neu wneud cais am fudd-daliadau.***

1. Mae rheoliad 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn eithrio person sy'n amodol ar reolaeth fewnfudo ac nad oes ganddo hawl i gyllid cyhoeddus rhag cael hawl i'r rhan fwyaf o daliadau o system nawdd cymdeithasol y DU. Nid oes gan unrhyw geisiwr lloches hawl i gyllid cyhoeddus (ac eithrio plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches). Pe bai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weinyddu lles, byddai'n rhaid iddi gymhwyso'r ddeddfwriaeth wrth brosesu hawliad am fudd-dal nawdd cymdeithasol ac felly ni fyddai'n gallu dyfarnu Credyd Cynhwysol, er enghraifft, i geisiwr lloches.

2. Mae Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn amlinellu'r amodau a'r cyfyngiadau a osodir ar geiswyr lloches sy'n chwilio am waith yn y DU. Cafodd y ddeddfwriaeth hon ei hegluro a'i diwygio ymhellach yn Neddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 a Deddf Mewnfudo 2016. I grynhoi, nid oes gan geisiwr lloches yn y DU hawl i weithio, oni bai ei fod wedi cael caniatâd gan Lywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref). Er enghraifft, os yw cais ceisiwr lloches wedi cymryd mwy na blwyddyn i'w brosesu, gall wneud cais am ganiatâd i weithio, ond mae unrhyw ganiatâd o'r fath yn ôl disgresiwn y Swyddfa Gartref. Ni fyddai hawliau ceisiwr lloches i weithio yn cael eu newid pe bai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weinyddu lles.